## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR** |
| **SUBJECT:** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD LLUN, 2 MAWRTH 2020 DYDD LLUN, 2 MAWRTH 2020** |
| **REPORT OF:** | |

---

| | | |
|---|---|---|
| PRESENT: | M. MOORE (CADEIRYDD) | |
| | Councillors | P. Baldwin<br>D. Bevan<br>M. Cook<br>N. Daniels<br>D. Davies<br>G. A. Davies<br>G. L. Davies<br>M. Day<br>P. Edwards<br>L. Elias<br>D. Hancock<br>K. Hayden<br>S. Healy<br>J. Hill<br>M. Holland<br>J. Holt (Is-gadeirydd)<br>J. Mason<br>H. McCarthy<br>C. Meredith<br>J. C. Morgan<br>J. P. Morgan<br>L. Parsons<br>K. Rowson<br>T. Sharrem<br>T. Smith<br>B. Summers<br>B. Thomas<br>S. Thomas<br>H. Trollope<br>J. Wilkins |

B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Carwydwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Swyddog Adnoddau |
| Prif Swyddog Masnachol |
| Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorwyr G. Collier, J. Collins, M. Cross, W. Hodgins, G. Paulsen, K. Pritchard, G. Thomas, D. Wilkshire, y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>**Eitem Rhif 5 – Cofrestr Ffioedd a Thaliadau 2020/221:**<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu a gynhwyswyd o fewn Cofrestr Ffioedd a Thaliadau 2020/2021 a chydnabu mai dim ond yng nghyswllt y taliadau neilltuol hyn y gallai'r Cyngor wneud argymhelliad i'r Pwyllgor Trwyddedu. Fodd bynnag, mynegodd ei phryder pe byddai unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu yn dymuno trafod neu ofyn cwestiynau'n | |

ymwneud â’r taliadau hyn (cyn cynnal y Pwyllgor Trwyddedu) y byddai hyn yn arwain at rag-benderfyniad. Daeth yr Aelod i ben drwy ddweud y dylai’r ffioedd a thaliadau hyn fod wedi eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu cyn eu cyflwyno i’r Cyngor Llawn.

Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol mai mater i’r Pwyllgor Trwyddedu oedd penderfynu ar y ffioedd a thaliadau neilltuol hyn. Fodd bynnag, cadarnhaodd y swyddog y byddai’n briodol i Aelodau’r Pwyllgor Trwyddedu drafod a gofyn cwestiynau perthnasol am y taliadau hyn (cyhyd nad oedd unrhyw Aelod yn datgan barn neilltuol) gan na fyddai hyn yn cael ei ystyried fel rhag-benderfyniad. Gallai unrhyw sylwadau a wnaed wedyn gael eu hadrodd i’r Pwyllgor Trwyddedu i’w hystyried wrth benderfynu ar y ffioedd a thaliadau.

Ychwanegodd yr Aelod y byddai’r cwestiynau y dymunai eu gofyn am ffioedd a thaliadau Trwyddedu yn arwain at rag-benderfyniad a theimlai na ddylai Aelodau gael eu rhoi mewn sefyllfa lle'r oedd yn rhaid iddynt sensora’r cwestiynau y dymunent eu gofyn rhag ofn rhag-benderfyniad. Daeth i ben drwy ddweud y dylai ffioedd a thaliadau trwyddedu yn y dyfodol gael eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu cyn iddynt gael eu cyflwyno i’r Cyngor i’w ystyried fel rhan o’r Gofrestr Ffioedd a Thaliadau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol mai’r sefyllfa ddelfrydol fyddai i’r ffioedd a thaliadau fod wedi eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu yn y lle cyntaf, fodd bynnag ni fu hyn yn bosibl oherwydd y rhaglen cyfarfodydd. Ategodd y swyddog hyn a daeth i ben drwy ddweud fod Aelodau’r Pwyllgor Trwyddedu yn cael gofyn cwestiynau diduedd yng nghyswllt y ffioedd a thaliadau Trwyddedu ond mai cylch gorchwyl y Pwyllgor Trwyddedu ac nid y Cyngor yw gwneud y penderfyniad h.y. dim ond argymhelliad i’r Pwyllgor Trwyddedu y byddai’r Cyngor yn medru ei wneud.

Dywedodd yr Aelod y byddai’n codi ei chwestiynau yn y Pwyllgor Trwyddedu.

Ar hynny, adroddwyd y datganiad buddiant dilynol:

**Eitem Rhif 5 – Cofrestr Ffioedd a Thaliadau Corfforaethol 2020/2021 –**

| | | |
|---|---|---|
| | **Ffioedd a Thaliadau Gwastraff Masnach Masnachol a Marchnadoedd**<br><br>Cynghorydd P. Edwards | |
| **No. 4** | **<u>CYLLIDEB REFENIW 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy'n cyflwyno'r Gyllideb Refeniw a chynigion y Dreth Gyngor ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2020/2021 yn cynnwys y praeseptau a gymeradwywyd gan awdurdodau statudol eraill a fyddai'n effeithio ar lefel leol y Dreth Gyngor ac yn cynnwys y penderfyniadau statudol perthnasol.<br><br>Nodwyd fod cyfarfod y Cyngor ar 6 Chwefror 2020 wedi ystyried y Setliad Refeniw darpariaethol ac ers hynny derbyniwyd manylion y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru. Hysbysodd y Prif Swyddog Adnoddau y Cyngor na fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r manylion rhwng y setliad darpariaethol a'r setliad terfynol y dymunai dynnu sylw Aelodau yn benodol atynt gan fod y Grant Setliad Refeniw yn parhau ar £116m. Bu un cynnydd bach yn lefel y cyllid ar gyfer grantiau refeniw penodol; fodd bynnag dim ond ar sail Cymru gyfan mae'r wybodaeth hon ar gael hyd yma ac mae effaith hyn ar Flaenau Gwent yn benodol yn dal yn anhysbys.<br><br>***Opsiynau ar gyfer Argymhelliad***<br><br>Aeth y Prif Swyddog Adnoddau ymlaen drwy amlinellu'r opsiynau ar gyfer argymhelliad a gynhwysir yn Adran 3 yr adroddiad a dywedodd:<br><br>➢ Bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2020 wedi cytuno ar gynnydd Treth Gyngor o 3.9% ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021.<br><br>➢ Bod y term 'eitemau arbennig' yn cyfeirio at y praeseptau ar gyfer Cynghorau Tref/Cymuned ac mai cyfanswm gwerth y praeseptau hyn oedd £506,143.<br><br>➢ Bod manylion y Dreth Gyngor lawn yn cynnwys Praeseptau'r | |

Heddlu a Chymunedau ar gyfer pob rhan o Flaenau Gwent ar gael yn y tabl terfynol yn Adran 3 yr adroddiad.

***Goblygiadau pob Opsiwn***

Cafodd y goblygiadau ariannol ar gyfer proses gosod cyllideb 2020/21 eu crynhoi islaw:

- Cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor (elfen Blaenau Gwent). Roedd hyn yn ostyngiad o 1% o gymharu â'r flwyddyn ariannol bresennol.

- Gofyniad cyllideb ar gyfer y Cyngor o £151,732 miliwn (yn cynnwys Cynghorau Cymuned).

- Cafodd mesurau effeithlonrwydd Pontio'r Bwlch eu cynnwys yn y gyllideb refeniw o £1,465 miliwn.

- Cafodd pwysau cost yn gyfanswm o £1.16 miliwn ac eitemau twf yn gyfanswm o £0.89 miliwn eu cynnwys yn y gyllideb refeniw.

***Gofyniad Cyllideb***

- Mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r amcangyfrifon portffolio dilynol gan roi ystyriaeth i gynigion Pontio'r Bwlch, pwysau cost ac eitemau twf. Yn ychwanegol, caiff £1.7m ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at ofyniad cyllideb statudol o £151,732,365. Mae angen ychwanegu rhyddhad ardrethi ar ddisgresiwn o £208,000 i ofyniad y gyllideb i roi'r cyfanswm gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/2021 o £151,940.365.

***Cronfeydd wrth Gefn***

- Mae'r Cyngor wedi cytuno ar lefel targed ar gyfer cronfeydd cyffredinol wrth gefn, sef 4% o'r gwariant refeniw net gwirioneddol diwethaf a adroddwyd.

- A thybio bod rhagolwg chwarter 3 2019/2020 yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn, byddai'r lefel a ragwelir o gronfeydd cyffredinol wrth gefn yn £6.079 miliwn (4.5%). Mae'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn uwch na'r targed 4% a nodwyd o fewn y protocol cronfeydd wrth gefn.

***Adran 25, Deddf Llywodraeth Leol 2003***

Mae'r ddeddfwriaeth uchod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Adnoddau adrodd ar y pwyntiau dilynol:

- ***Cadernid yr amcangyfrifon a gynhwysir yn y Gyllideb*** **–** gallai'r Prif Swyddog Adnoddau ddod i'r casgliad y cafodd yr amcangyfrifon eu paratoi gyda'r wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael a'u bod yn briodol o gadarn. Cafodd pwysau cost eu hystyried yn ystod y broses gosod cyllideb ac ar gyfer y tymor canol.

- ***Digonolrwydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod*** **–** dengys paragraff 5.1.12 fod yr Awdurdod yn dymuno sicrhau sefyllfa gynaliadwy ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r tymor canol. Byddai'r protocol cronfeydd wrth gefn yn parhau i adolygu cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau y caiff y Cronfeydd Cyffredinol wrth Gefn eu cadw ar lefel gynaliadwy yn y tymor canol.

Yna rhoddwyd cyfle i Aelodau i godi cwestiynau a rhoi sylwadau ar yr adroddiad.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cyngor eisoes wedi cytuno yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2020 ar gynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor. Yn draddodiadol mae'r cyfarfod hwn wedi derbyn yr elfennau ychwanegol sy'n rhoi cyfanswm y Dreth Gyngor ac i'r Prif Swyddog Adnoddau roi sicrwydd i'r Cyngor ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor. Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud y byddai'n cynnig cymeradwyo'r adroddiad ar y pwynt priodol.

Soniodd Arweinydd y Grŵp Llafur am gadernid yr amcangyfrifon a chanmolodd y gwaith a wnaed i gyflawni hyn.

***Praeseptau Cynghorau Tref/Cymuned***

Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at y praeseptau Cynghorau Tref/Cymuned y rhoddir eu manylion ar dudalen 10 yr adroddiad a dywedodd ei bod yn amlwg fod lefel praesept Abertyleri a Llanhiledd gryn dipyn yn uwch na phraeseptau Cynghorau Tref eraill. Aeth ymlaen drwy ddweud y gwyddai pan gymerodd Cyngor

Tref Tredegar gyfrifoldeb, er enghraifft, am gaeau chwarae Deighton a'r cyfleusterau cyhoeddus fod y rhain yn feysydd gwasanaeth ar wahân a neilltuol i'r rhai a ddarparai'r Cyngor a gofynnodd am sicrwydd nad oedd Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd yn dyblygu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor nad oedd Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd yn dyblygu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

***Opsiynau ar gyfer Argymhelliad***

Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at y nifer sylweddol o argymhellion a gynhwysir yn Adran 3 yr adroddiad oedd wedi eu rhagflaenu gyda'r geiriau 'i'w nodi'. Gofynnodd am eglurdeb, pe byddai'r Grŵp Llafur yn cefnogi'r adroddiad, mai dim ond elfennau ffeithiol yr adroddiad fyddai'n cael eu cefnogi ac nad oedd hyn yn negyddu cynnig y Grŵp Llafur yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Chwefror 2020 i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 2.9%.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai Aelodau yn 'nodi' y cyfan a gytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar 6 Chwefror 2020 a byddai'n derbyn y praeseptau a hysbyswyd gan yr heddlu a chynghorau tref/cymuned.

Gan mai dim ond pwyntiau ffeithiol oedd angen eu nodi, cadarnhaodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn fodlon cefnogi'r argymhellion a gynhwysir o fewn yr adroddiad.

***Lwfans Treth Gyngor ar Ddisgresiwn***

Cyfeiriodd Aelod at y llifogydd diweddar mewn adeiladau yn Cwm a Llanhiledd a gofynnodd a oedd unrhyw bosibilrwydd y gallai'r Cyngor ddilyn llwybrau tebyg i awdurdodau eraill a rhoi lwfans treth gyngor ar ddisgresiwn i'r preswylwyr hynny y mae'r digwyddiadau diweddar hyn wedi effeithio arnynt.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud bod pecynnau cyllid penodol ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y preswylwyr hynny sy'n byw yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Yn nhermau lwfansau'r Dreth Gyngor, gwyddai fod y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael swyddogion o'r Adran Adnoddau i ganfod pa gymorth y gellid ei ddarparu. Dywedodd iddo weld y difrod ofnadwy a achosodd y llifogydd yn ardaloedd Cwm a Llanhiledd ac

mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol eraill e.e. Rhondda Cynon Taf, a dywedwyd y bu'n rhaid i breswylwyr symud o'u cartrefi am gyfnod sylweddol. Daeth yr Arweinydd i ben drwy gadarnhau pe gallai'r Cyngor gynorthwyo'r preswylwyr hynny o fewn yr ardaloedd yr effeithid arnynt y byddai'r cymorth hwn ar gael.

Dywedodd Aelod ei bod yn amser addas i ganmol y Cyngor am y gwaith rhagorol a wnaed i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yn Llanhiledd ac y croesewid hynny os gallai mwy o gymorth fod ar gael.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad. Eiliwyd y cynnig.

Mewn pleidlais unfrydol,

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodwyd:

3.1 Bod y Cyngor wedi cytuno yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2020 ar gynnydd Treth Gyngor o 3.9% ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021.

Fel canlyniad, elfen Cyngor Blaenau Gwent o'r taliad treth gyngor llawn fyddai:

| Bandiau Prisiant (£) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| 1,141.24 | 1,331.45 | 1,521.65 | 1,711.86 | 2,092.27 | 2,472.68 | 2,853.09 | 3,423.71 | 3,994.33 |

3.2 Yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2020, roedd y Cyngor wedi cyfrifo'r symiau dilynol ar gyfer y flwyddyn (2020/2021) yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Llywodraeth Leol 1992:

3.3 Sylfaen y Dreth Gyngor oedd y nifer o anheddau y codir tâl arnynt ym mhob ardal a addaswyd ar gyfer nifer o eitemau e.e. disgowntiau taladwy, wedi'i luosi gan y gyfradd gasglu dybiedig oedd yn 95% ar gyfer 2020/2021.

a) Y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) 1992 fel ei sylfaen Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn oedd:

20,662.45

b) Y symiau, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau, fel swm y sylfaen Treth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt oedd:

| | £ |
|---|---|
| Abertyleri a Llanhiledd | 4,638.15 |
| Brynmawr | 1,689.96 |
| Nantyglo a Blaenau | 2,695.12 |
| Tredegar | 4,704.71 |

c) Am y flwyddyn 2020/2021 roedd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent wedi nodi'r symiau dilynol mewn praeseptau a gyhoeddwyd i'r Cyngor (cyfanswm o £5,640,022) yn unol ag Adran 40 Deddf Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir:

| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bandiau Prisiant (£) | | | | | | | | |
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| 181.97 | 212.30 | 242.63 | 272.96 | 333.62 | 394.28 | 454.93 | 545.92 | 636.91 |

3.4 Bod y symiau dilynol yn awr yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2020/2021 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) £217,235,415 – Croniad y symiau a amcangyfrifodd y Cyngor ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (2)(a) i (d) y Ddeddf.

b) £65,503,050 – Croniad y symiau a amcangyfrifodd y Cyngor am yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) a (c) y Ddeddf.

c) £151,732,365 – Y swm yr oedd y croniad yn (a) uchod yn fwy na'r croniad yn (b), wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn.

d) £208,000 – Y swm a amcangyfrifodd yr Awdurdod yng nghyswllt Adrannau 47 a 49 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol a Threthi 1997, ar gyfer cymorth ardrethi annomestig ar ddisgresiwn.

e) £116,063,000 – Croniad y symiau a amcangyfrifodd y Cyngor fyddai’n daladwy am y flwyddyn i gronfa’r Cyngor yng nghyswllt ardrethi annomestig wedi ei ailddosbarthu, grant cymorth refeniw a grant ychwanegol.

f) £1,736.36 – Y swm yn (c) uchod ynghyd â swm (d) uchod a llai’r swm yn (2) uchod, i gyd wedi’u rhannu gan y swm yn 3.2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn.

g) £506,143 – Croniad swm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

h) £1,711.86 – Y swm yn (f) uchod llai y canlyniad a roddwyd gan rannu’r swm yn (g) uchod gan y swm yn 3.2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o’i ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn cyfeirio atynt.

i) Y symiau a roddir drwy ychwanegu at y swm yn (h) uchod symiau’r eitem neu eitemau arbennig yn cyfeirio at anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir uchod, a rannwyd ym mhob achos gan y swm yn 3.2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer yr anheddau yn y rhannau hynny o’i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn cyfeirio atynt oedd:

| | £ |
|---|---|
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,763.61 |
| Brynmawr | 1,737.30 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,743.29 |
| Tredegar | 1,741.28 |

j) Y symiau a roddir drwy luosi’r symiau yn (h) a (i) uchod gan y nifer sydd, yn y gyfran a nodir yn adran 5(1) yn y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiant neilltuol wedi’i rannu gan y nifer oedd yn y gyfran honno yn berthnasol i anheddau a restrir ym Mand Prisiant D, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i roi ystyriaeth iddynt am y flwyddyn yng nghyswllt categorïau anheddau a restrwyd mewn gwahanol fandiau prisiant gwahanol oedd:

| | Treth y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Praeseptau Cymunedol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,175.74 | 1,371.70 | 1,567.65 | 1,763.61 | 2,155.52 | 2,547.44 | 2,939.35 | 3,527.22 | 4,115. |
| Brynmawr | 1,158.20 | 1,351.24 | 1,544.26 | 1,737.30 | 2,123.36 | 2,509.44 | 2,895.50 | 3,474.60 | 4,053. |
| Nantyglo a Blaenau | 1,162.19 | 1,355.90 | 1,549.59 | 1,743.29 | 2,130.68 | 2,518.09 | 2,905.48 | 3,486.58 | 4,067. |
| Tredegar | 1,160.85 | 1,354.33 | 1,547.80 | 1,741.28 | 2,128.23 | 2,515.19 | 2,902.13 | 3,482.56 | 4,062. |
| Glynebwy | 1,141.24 | 1,331.45 | 1,521.65 | 1,711.86 | 2,092.27 | 2,472.69 | 2,853.10 | 3,423.72 | 3,994. |

k) Ar ôl cyfrifo'r croniad ym mhob achos o'r symiau yn (c) a (j) uchod, mae'r Cyngor yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn nodi'r symiau dilynol fel y symiau o Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2020/21 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir islaw:

| | Treth Lawn y Dreth Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Heddlu | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,357.71 | 1,584.00 | 1,810.28 | 2,036.57 | 2,489.14 | 2,941.72 | 3,394.28 | 4,073.14 | 4,752.0 |
| Brynmawr | 1,340.17 | 1,563.54 | 1,786.89 | 2,010.26 | 2,456.98 | 2,903.72 | 3,350.43 | 4,020.52 | 4,690.6 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,344.16 | 1,568.20 | 1,792.22 | 2,016.25 | 2,464.30 | 2,912.37 | 3,360.41 | 4,032.50 | 4,704.5 |
| Tredegar | 1,342.82 | 1,566.63 | 1,790.43 | 2,014.24 | 2,461.85 | 2,909.47 | 3,357.06 | 4,028.48 | 4,699.9 |
| Glynebwy | 1,323.21 | 1,543.75 | 1,764.28 | 1,984.82 | 2,425.89 | 2,866.97 | 3,308.03 | 3,969.64 | 4,631.2 |

No. 5

## COFRESTR FFIOEDD A CHOSTAU CORFFORAETHOL 2020/2021

Datganodd y Cynghorydd P. Edwards fuddiant yn yr eitem hon (yn benodol ffioedd a thaliadau gwastraff masnach a marchnadoedd) gan ei fod yn Gadeirydd Fforwm Busnes Glynebwy ond arhosodd yn y cyfarfod tra cafodd yr eitem ei hystyried.

Ystyriodd aelodau adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a gyflwynwyd i Aelodau i gymeradwyo'r ffioedd a thaliadau i gael eu gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol

2020/2021, yn cynnwys y ffioedd craidd a’r taliadau a gaiff eu gweithredu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.

Nodwyd fod rhaglen Pontio’r Bwlch wedi cynnwys Adolygiad Busnes Strategol ar Ffioedd a Thaliadau i sicrhau fod y Cyngor yn cynyddu ei incwm i’r eithaf drwy sicrhau y caiff y ffioedd a’r taliadau eu gosod ar lefel sy’n cynnwys costau darparu’r nwyddau a gwasanaethau y mae’n eu darparu lle’n briodol.

Mae ffioedd a thaliadau’n cynhyrchu tua £14m y flwyddyn mewn incwm ac yn cyfrannu tuag at ariannu cost darparu gwasanaethau Cyngor, gyda £2m yn cyfeirio at wasanaethau masnachol. Mae hyn wedi helpu cydnerthedd ariannol y Cyngor a chaiff y Gofrestr Ffioedd a Thaliadau ei hadolygu yn rheolaidd yn unol â’r polisi incwm a’r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a gytunwyd gan y Cyngor.

***Diwygiad***

Gwnaed y diwygiad dilynol i’r Ffioedd a Thaliadau yn cyfeirio at Brydau Ysgol a roddir ar dudalen 43 yr adroddiad. Cafodd y taliadau eu gostwng a dylent ddarllen fel sy’n dilyn:

| ***Addysg – Prydau Ysgol – Oedolion fesul Pryd Bwyd. Ff gweithredol o fis Medi*** |
|---|
| Staff - £3.43 |
| Myfyrwyr - £3.43 |

| **Addysg – Prydau Ysgol - Plant**<br>**Plant Oedran Uwchradd (Blynyddoedd 7 i 11) a Phlant Oedran Cynradd (Meithrin i Flwyddyn 6). Ffi gweithredol o fis Medi. Ffi fesul pryd bwyd.** |
|---|
| Uwchradd - £2.60 |
| Cynradd – £2.34 |

***Taliadau Gwastraff Masnach***

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod angen gwneud mwy o waith ar ffurf adolygiad busnes yng nghyswllt taliadau am wastraff masnach yn yr ychydig wythnosau nesaf. Unwaith y cwblhawyd y

gwaith hwn, byddid yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ei ystyried yng nghyfarfod mis Mawrth.

Hysbyswyd Aelodau y cafodd y ffioedd a thaliadau cyfredol eu hadolygu i:

- Sicrhau fod yr holl ffioedd a thaliadau a gynhwyswyd ar y gofrestr yn berthnasol ar gyfer 2020/2021.
- Adlewyrchu newidiadau mewn polisi a thaliadau lleol a chenedlaethol.
- Adlewyrchu isafswm cynnydd ymgodiad o 2% yn unol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.
- Ystyried os gellid cynyddu ffioedd a thaliadau yn unol ag egwyddorion yr Adolygiad Busnes Strategol, a bod hyn yn cynnwys ystyried ymgodiad blynyddol o 5.5% lle'n berthnasol.

***Effaith ar y Gyllideb***

- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a chyllideb 2020/2021 yn tybio ymgodiad chwyddiant o 2% y flwyddyn ar gyfer ffioedd a thaliadau ac mae'r Adolygiad Busnes Strategol yn tybio y cyflawnir amcangyfrif o £200,000 ar gyfer 2020/2021 ac amgyfrifir y cyflawni £95,000 o hynny drwy gynyddu ffioedd ar ddisgresiwn gan 5.5% lle mae cwmpas o fewn y farchnad heb gael effaith sylweddol ar y galw.

- Mae'r gofrestr ffioedd a thaliadau yn cynnig ymgodiad o 2.%, 5.5% ar gyfer ystod o ffioedd a fanylir ym Mharagraff 5.1.3 (a) a (b) yr adroddiad ynghyd â'r ffioedd eraill a gynigir ym Mharagraff 5.1.3(c):

Cafodd aelodau wedyn gyfle i godi cwestiynau a rhoi sylwadau ar yr adroddiad.

***Ffioedd a Thaliadau – Casgliad Marchnadoedd/Gwastraff Swmpus***

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, yr un pryd ac y cynhaliwyd adolygiad o'r taliadau Gwastraff Masnach, y cynhelir adolygiad tebyg ar gyfer y ffioedd a thaliadau ar gyfer Marchnadoedd. Yn

ychwanegol, eglurodd y dylai'r cynnydd a gynigiwyd o 5.5% ar gyfer Casgliad Gwastraff Swmpus gael ei dynnu (o baragraff 5.1.3(b)), oherwydd y byddai'r taliad am y gwasanaeth hwn yn parhau ar brisiau 2019/2020 fel yr amlinellir ym mharagraff 5.1.3(c).

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

***Addysg – Taliadau ar gyfer lleoliadau o'r tu allan i'r sir o fewn yr Ysgol Arbennig***

Dywedodd Aelod iddo ddod i wybod yn ystod ymweliad diweddar i'r ysgol neilltuol yma am faterion capasiti. Gofynnodd felly am warant fod plant o Flaenau Gwent yn cael blaenoriaeth cyn y caiff unrhyw leoedd gwag eu llenwi gan leoliadau o'r tu allan i'r sir.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y rhoddir blaenoriaeth i blant Blaenau Gwent a dim ond os oes lleoedd gwag yn dal i fod o fewn y sefydliad y caiff y rhain wedyn eu llenwi gan leoliadau o'r tu allan i'r sir.

***Ffioedd a Thaliadau Cerbydau Hacni/Hurio Preifat***

Cyfeiriwyd at baragraff 5.1.4 yr adroddiad sy'n dweud y cynhaliwyd ymgynghoriad ar ffioedd Trwyddedu ac y daeth y broses i ben ar 13 Chwefror 2020. Gofynnodd Aelod i bob Aelod o'r Cyngor gael copi o adroddiad yr ymgynghoriad sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu a dywedodd y dymunai siarad yn y Pwyllgor hwn cyn i Aelodau wneud penderfyniadau yng nghyswllt ffioedd a thaliadau Cerbydau Hacni/Hurio Preifat.

Nodwyd y cais yn unol â hynny.

***Ffioedd Trwyddedu***

Gofynnodd Aelod os y defnyddiwyd matrics i benderfynu ar lefel y cynnydd mewn ffioedd trwyddedu oherwydd y cynigir cynnydd sylweddol ar gyfer nifer o feysydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i fodel adfer cost gael ei gymeradwyo'n genedlaethol gan bob Cyfarwyddwr Iechyd yr Amgylchedd ar draws Cymru ac mai hwn oedd y mesur safonol a ddefnyddiwyd ar draws yr holl daliadau.

Yng nghyswllt cwestiwn am swm y cyllid a gollwyd mewn blynyddoedd blaenorol drwy beidio defnyddio’r model, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod elfen fasnachol gwasanaethau’n cael ei archwilio ymhellach i ddynodi costau a chafodd y model hwn wedi ei gymhwyso i adlewyrchu cost darpariaeth gwasanaeth.

***Tiroedd a Meysydd Chwarae***

Cyfeiriodd Aelod at y cynnydd a gynigir i £120 fesul gêm ar gyfer tiroedd a chaeau chwarae a gofynnodd am eglurhad os mai’r ffi yma neu ffi gwahanol y byddid yn ei godi os bu trosglwyddo ased cymunedol ar y tir i sefydliad arall.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y gallai’r clybiau lle bu trosglwyddo asedau cymunedol yn medru gosod eu ffioedd tiroedd eu hunain.

Dywedodd Aelod arall y deallai fod ffioedd caeau chwarae yn berthnasol ar gyfer tiroedd lle na fu trosglwyddo ased cymunedol. Gofynnodd os mai’r Cyngor neu Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn cadw’r ffioedd ar gyfer caeau chwarae.

Atebodd Arweinydd y Cyngor mai ei ddealltwriaeth ef oedd bod y ffioedd yn cael eu gosod a’u cadw gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn neilltuol ar gyfer elfennau 3G a thiroedd/lleiniau.

Dytwdodd yr Aelod na chaiff ffioedd a thaliadau ar gyfere caeau chwarae eu rhestr o fewn ffioedd a thaliadau arfaethedig Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a roddir yn atodiad 2. Gofynnodd am eglurhad ar pwy sy’n gyfrifol am gaeau chwarae, yn neilltuol gaeau chwarae ysgolion.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol bod Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn cadw’r ffioedd ar gyfer lleiniau yr oeddent yn eu gweithredu. Fodd bynnag mae rhai meysydd o rannu cyfrifoldeb a dywedodd y byddai’n dilyn y mater ac yn adrodd yn ôl i Aelodau yn cynnwys eglurdeb am y cyfrifoldeb am y cae chwarae yn Ysgol Gyfun Tredegar.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

***Ffioedd a Thaliadau Gwasanaethau Cymdeithasol***

Mynegodd Aelod ei bryder fod y Cyngor, fel awdurdod gofalgar, yn cynnig cynnydd uwch na chwyddiant ar gyfer y ffioedd a thaliadau am wasanaethau cymdeithasol. Mynegodd bryder neilltuol am y cynnydd o 7% a gynigir ar gyfer Taliadau Gofal Darparwyr Preifat a dywedodd y byddai hyn yn effeithio ar yr henoed ac aelodau mwy bregus y gymuned oedd angen y mathau hyn o wasanaethau.

O ran y Taliadau Gofal Darparwyr Preifat, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen i'r gwasanaethau a gomisiynwyd roi ystyriaeth i'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol o 6% a chyfraniadau pensiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, ac mae'n rheidrwydd ar y Cyngor i gyllido hyn. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd i Aelodau y bydd angen i ddarparwyr gwasanaeth ddangos sut y defnyddid y cyllid hwn cyn y byddai unrhyw ffioedd yn cael eu cynyddu.

***Ffioedd Trwyddedu – Rhag-benderfyniad***

Cyfeiriodd Aelod y Grŵp Llafur at gwestiwn cynharach a godwyd am y potensial i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu i rag-benderfynu ar y ffioedd trwyddedu ac awgrymodd y dylai Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu ymatal rhag pleidleisio ar y ffioedd a thaliadau (er mai argymhelliad gan y Cyngor i'r Pwyllgor Trwyddedu fyddai hynny) er mwyn iddynt fedru cymryd rhan lawn a gwneud penderfyniad yn y Pwyllgor Trwyddedu ar y mater hwn maes o law.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu mai dim ond argymhelliad am lefel y ffioedd a thaliadau trwyddedu y gallai'r Pwyllgor Trwyddedu ei wneud. Rhoddwyd pwerau wedi eu dirprwyo i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol (fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor) i wneud y penderfyniad terfynol yng nghyswllt y mater hwn.

Mewn ymateb i bryder arall a godwyd parthed Aelodau'n pleidleisio am y ffioedd a thaliadau ar gyfer Gwastraff Masnach a Marchnadoedd, dywedodd Arweinydd y Cyngor y cafodd y ffioedd a thaliadau'n gysylltiedig â'r meysydd hyn eu gohirio fel yr amlinellwyd yn gynharach ac y rhoddir adroddiad yn ôl i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyo i'w gweithredu o 1 Ebrill 2020. Yng nghyswllt y ffioedd a thaliadau Trwyddedu, er mai'r Pwyllgor Trwyddedu oedd y corff statudol i benderfynu ar y taliadau hyn, ni welai unrhyw reswm pam na fedrai'r Cyngor wneud argymhelliad i'r Pwyllgor hwnnw.

| | | |
|---|---|---|
| | Ar hynny cynigiodd Arweinydd y Cyngor y dylai'r adroddiad gael ei gymeradwyo gyda'r amodau a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod yn nhermau Gwastraff Masnach, Marchnadoedd a Gwastraff Swmpus.<br><br>Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y byddai holl Aelodau'r Grŵp Llafur yn ymatal rhag pleidleisio.<br><br>Mewn pleidlais a gymerwyd<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Gofrestr Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2020/2021 sy'n cynnwys y cynnydd prisiau craidd ar gyfer Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn amodol ar:-<br><br>➢ Gohirio'r ffioedd a thaliadau yng nghyswllt Gwastraff Masnach a Marchnadoedd nes y cynhelir adolygiad pellach. Caiff canfyddiadau'r adolygiad eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor a drefnwyd ar gyfer 26 Mawrth 2020.<br><br>➢ Ffioedd a thaliadau Casgliad Gwastraff Swmpus i barhau ar brisiau 2019/2020.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH i argymell cytuno mewn egwyddor ar y ffioedd a thaliadau Trwyddedu a'u hargymell i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w hystyried. | |